**WG52682**

# Llywodraeth Cymru
# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

# Dyfodol Isafbris Uned ar gyfer Alcohol yng Nghymru

**Tachwedd 2025**

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i'n hymgynghoriad ar barhau ag isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru.

**Camau i'w Cymryd**
Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**
Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

**Manylion cyswllt**
I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm Polisi Camddefnyddio Sylweddau
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
E-bost: substance.misuse@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**
Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Gosod isafbris am alcohol y tu hwnt i 2026 | LLYW.CYMRU

# Cynnwys

Cyflwyniad .................................................................................................. 4

Trosolwg ...................................................................................................... 5

Crynodeb o'r ymatebion ................................................................................ 8

Ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf ............................................... 26

## Cyflwyniad

Ar 4 Awst, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad wyth wythnos ynghylch a ddylai’r drefn o bennu isafbris uned ar gyfer alcohol barhau fel rhan o'r ystod o fesurau polisi i fynd i'r afael â niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol. Gofynnwyd am farn ynghylch ail gynnig hefyd, sef codi'r isafbris uned i 65c yr uned pe byddai'r drefn o bennu isafbris uned ar gyfer alcohol yn parhau.

Yn sgil ystyried effaith yr isafbris uned ar gyfer alcohol, y dystiolaeth, a barn a phrofiadau rhanddeiliaid, unigolion a grwpiau, mae Llywodraeth Cymru'n fodlon bod yna achos cryf dros barhau â'r polisi a'r ddeddfwriaeth y tu hwnt ddyddiad machlud mis Mawrth, a nodir yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018.

Credwn fod hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng cyflawni buddion o ran iechyd y cyhoedd a lleihau'r effeithiau posibl ar y farchnad diodydd alcoholig a defnyddwyr.

Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n gosod y ddeddfwriaeth angenrheidiol i sicrhau bod y drefn o bennu isafbris uned ar gyfer alcohol yn parhau y tu hwnt i fis Mawrth 2026. Byddai hyn drwy reoliadau a osodir gerbron y Senedd ar ddiwedd 2025.

Rhoddwyd gwybod i bron 200 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, drwy neges e-bost, am yr ymgynghoriad. Tynnwyd y rhain o blith rhestr graidd yr ymgynghoriad a oedd ym meddiant Tîm Polisi Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pum cwestiwn a ffurflen safonol er mwyn ei gwneud hi'n hawdd ymateb. Roedd cwestiynau un a dau yn ymwneud â'r cynigion penodol ac roedd cwestiynau tri i bump yn ymwneud ag effeithiau'r cynigion ar nodweddion gwarchodedig a'r iaith Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys tair adran; mae'r ddwy adran gyntaf yn disgrifio crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ac mae'r drydedd adran ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf. Yn benodol:

- Ystadegau disgrifiadol ar gyfer pob cwestiwn lle gellid echdynnu ffigurau am y farn a fynegwyd ar bob cwestiwn (lle gellid echdynnu ystadegau).
- Crynodeb o'r sylwadau a'r materion a godwyd o dan bob cwestiwn.
- Ymateb Llywodraeth Cymru.

Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion manwl ac ystyrlon a gafwyd i'r ymgynghoriad ac rydym wedi'u hystyried yn ofalus. Hoffem ddiolch i bob un o'r unigolion, busnesau, cyrff proffesiynol a sefydliadau eraill a gymerodd yr amser i ymateb. Mae eich mewnbwn cyfunol wedi bod yn amhrisiadwy o ran helpu i lywio ein hymateb a'r camau nesaf.

Nid yw'n fwriad gennym, ac ni fyddai'n bosibl, adlewyrchu pob sylw a ddaeth i law yn y crynodeb hwn o'r ymatebion. Y diben yw rhoi trosolwg o'r ymatebion a rhoi syniad

o'r materion a'r pryderon a godwyd mewn perthynas â'r cwestiynau a ofynnwyd gennym.

## Trosolwg

Gwnaeth yr ymgynghoriad esgor ar gyfanswm o 433 o ymatebion. Cafodd yr ymatebwyr eu neilltuo i gategorïau penodol yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd ym mhob ymateb. Os nad oedd wedi'i nodi, gwnaethom neilltuo categori drwy bwyso a mesur y wybodaeth, ond os nad oedd modd gwneud hynny, nodwyd eu bod yn amhenodol.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad cryno o'r ymatebwyr.

| **Categori** | **Rhif (%)** |
|---|---|
| Unigolion | 386 (89%) |
| Cymdeithasau diwydiant/masnach | 10 (2.5%) |
| Ymatebwyr y sector iechyd | 13 (3%) |
| Y sector cyhoeddus | 7 (2%) |
| Y trydydd sector | 15 (3%) |
| Academaidd/ymchwil | 2 (0.5%) |
| **Cyfanswm** | 433 (100%) |

Cafodd yr ymatebion cyffredinol gan y rheiny nad oeddent wedi defnyddio'r ffurflen safonol eu dadansoddi a'u cynnwys yn y materion allweddol a godwyd, a chawsant eu priodoli i'r cwestiwn/cwestiynau mwyaf perthnasol, ond nid ydynt wedi cael eu hadlewyrchu yn y dadansoddiad ystadegol yn dilyn pob cwestiwn.

Pan lansiwyd yr ymgynghoriad, rhoddwyd gwybod i bron 200 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, drwy neges e-bost, fod yr ymgynghoriad wedi cael ei gyhoeddi. Tynnwyd y rhain o blith rhestr graidd yr ymgynghoriad a oedd ym meddiant Tîm Polisi Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru. Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi hefyd drwy ddatganiad i'r wasg yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru, ac ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at yr holl Aelodau o'r Senedd am yr ymgynghoriad.

Yn gynnar yn y cyfnod ymgynghori, gwelsom ymchwydd sylweddol yn yr ymatebion gan unigolion a oedd yn erbyn y drefn o osod isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru. Cyn pen pedwar diwrnod wedi i'r ymgynghoriad gael ei lansio, cafwyd 268 o ymatebion. Daeth y rhain i law yn fuan ar ôl postiad ar y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn ôl pob tebyg yn ennyn gwrthwynebiad i'r ddeddfwriaeth. Dilynodd hyn erthygl dudalen flaen mewn papur newyddion rhanbarthol a gyhoeddwyd ddeuddydd i mewn i'r cyfnod ymgynghori, a oedd fel pe bai wedi cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae amseriad a nifer yr ymatebion yn awgrymu y gallai'r postiad fod wedi cael ei rannu o fewn rhwydweithiau sy'n feirniadol o'r drefn o bennu isafbris uned, gan, o bosibl, ysgogi ymateb cydgysylltiedig – cwblhawyd 128 o ymatebion mewn llai na phum munud; cafodd 54 ohonynt eu cwblhau mewn llai na thair munud.

Yn dilyn yr anterth cynnar hwn, arafodd nifer yr ymatebion unigol yn sylweddol ac wrth i'r cyfnod ymgynghori fynd yn ei flaen, cawsom gyflwyniadau strwythuredig a

chynhwysfawr gan sefydliadau, yn cynnwys cyrff iechyd y cyhoedd, partneriaid yn y trydydd sector, a chymdeithasau proffesiynol. Roedd y rhain yn fanwl ac yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn adlewyrchu barn rhanddeiliaid a chanddynt brofiad uniongyrchol o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol a'r gwasanaethau a ddarperir.

Gwelwyd cynyddiadau bach yn y cyfraddau ymateb yn dilyn negeseuon e-bost atgoffa penodol a anfonwyd at randdeiliaid tua diwedd y cyfnod ymgynghori. Roedd y cyfathrebiadau hyn wedi helpu i sicrhau ymgysylltiad parhaus a chynrychiolaeth gytbwys o'r farn ledled sectorau.

Roedd 89% o'r ymatebwyr yn aelodau unigol o'r cyhoedd, a oedd fel arfer yn rhoi sylwadau byr i fynegi eu cefnogaeth neu eu gwrthwynebiad i isafbris uned.

Roedd sefydliadau'n aml yn darparu ymatebion hirach, mwy manwl i gefnogi eu barn am y drefn o bennu isafbris uned. Roedd rhai sefydliadau wedi amlinellu'r unigolion a fu'n ymwneud â pharatoi eu cyflwyniad, a oedd yn cynnwys swyddi rheoli, gweithredol a/neu dechnegol i adlewyrchu safbwynt cyfunol y sefydliad.

**Cwestiwn 1 – Ydych chi'n meddwl y dylai'r isafbris uned barhau yng Nghymru?**

Ymhlith yr holl ymatebwyr ar gyfer parhau â'r isafbris uned, roedd 357 (82.5%) yn gwrthwynebu, 65 (15%) yn cefnogi parhad ac 11 (2.5%) heb benderfynu neu wedi gadael yr adran yn wag.

Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau nodedig rhwng safbwyntiau unigolion a sefydliadau.

Roedd y categori unigolion yn cyfrif am 352 (90%) yn erbyn, 28 (7%) o blaid, ac 11 (3%) heb benderfynu neu wedi gadael yr adran yn wag. Roedd y categori sefydliadau yn cyfrif am bump (10%) yn erbyn, 37 (78%) o blaid a thri (6%) heb benderfynu, ac nid oedd dau o'r ymatebwyr (4%) wedi nodi dymuniad mewn perthynas â'r ymateb hwn, er o weld eu hymatebion roeddent o blaid parhau â'r isafbris uned ond gwnaethant ddarparu nifer o amodau o ran yr amser arwain ar gyfer unrhyw newid a gwerthusiad pellach. Er eu bod yn gadarnhaol yn fwy na dim yn eu hymatebion, nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y categori "ydw/ydyn" ar gyfer yr adran hon.

Roedd pum sefydliad (10%) yn y categori cymdeithasau masnach/diwydiant yn gwrthwynebu parhad yr isafbris uned, gan gyfrif am 1.4% o gyfanswm y gwrthwynebiad cyffredinol, ac roedd unigolion (352) yn cyfrif am y 98.6% a oedd yn weddill o'r cyfanswm, ac nid oedd bron chwarter yr ymatebwyr unigol (23.5%) wedi darparu ateb i gefnogi eu barn. Roedd y 268 o unigolion a oedd yn weddill, a ddarparodd naratif i'w gwrthwynebiad i'r cynigion, wedi defnyddio 31 o eiriau ar gyfartaledd yn eu hymatebion, lle roedd y sefydliadau a oedd yn gwrthwynebu wedi darparu 424 o eiriau ar gyfartaledd yn eu hymateb.

Roedd pob un o'r sefydliadau o'r sector iechyd y cyhoedd a'r sector academaidd/ymchwil heblaw un yn cytuno y dylid parhau â'r drefn o bennu isafbris uned. Yn y sector cyhoeddus, roedd dau o blith y saith ymatebydd heb benderfynu ac roedd dau o blith y cymdeithasau masnach/diwydiant yn dal heb benderfynu, gan

gyfrif am 10% o'r ymatebion a oedd heb benderfynu o blith y sefydliadau. O blith y sefydliadau eraill a ymatebodd i'r ymgynghoriad, roeddent yn cytuno y dylai'r isafbris uned barhau, gan gyfrif am 80% o'r ymatebion cadarnhaol gan sefydliadau. Y sector cymdeithasau masnach/diwydiant oedd yr unig sefydliad i wrthwynebu parhad yr isafbris uned.

**Cwestiwn 2 – Os bydd isafbris uned yn parhau, a ydych yn cytuno â phennu lefel newydd o 65c yr uned?**

O blith y rheiny a ymatebodd i'r cynnydd arfaethedig i 65c yr uned, roedd 363 (84%) yn gwrthwynebu, 51 (12%) yn gefnogol, a 19 (4%) heb benderfynu neu wedi gadael y cwestiwn yn wag.

Yn yr un modd â chwestiwn un, roedd gwahaniaethau nodedig rhwng safbwyntiau unigolion a sefydliadau.

Ymhlith yr unigolion, roedd 358 (93%) yn erbyn, 17 (4%) yn gefnogol, ac 11 (3%) heb benderfynu neu heb ymateb. Yng nghategori'r sefydliadau, roedd pum ymatebydd (11%) yn gwrthwynebu, roedd 34 (72%) yn gefnogol, pedwar (8.5%) heb benderfynu, a phedwar (8.5%) heb nodi dymuniad. O blith yr olaf o'r rhain, ni ddarparodd dau ohonynt naratif ategol, a chynigiodd y ddau arall sylwadau a oedd yn gefnogol at ei gilydd o'r cynnig i godi'r pris, ond nid oeddent wedi dewis un ymateb. Gan nad oedd datganiad clir wedi'i roi, nid yw'r rhain wedi cael eu cynnwys yn y categori "ydw/ydyn".

Yn yr un modd â chwestiwn un, roedd pum sefydliad (10%) o dan y categori cymdeithasau masnach/diwydiant yn gwrthwynebu'r cynnig i godi'r pris i 65c yr uned, ac yn cyfrif am 1.3% o gyfanswm y gwrthwynebiad cyffredinol. Roedd unigolion (363) yn cyfrif am y 98.7% arall, ac ni ddarparodd 30% o'r ymatebwyr naratif i gefnogi eu barn. Roedd y 249 o unigolion eraill a ddarparodd naratif i'w gwrthwynebiad wedi defnyddio 20 o eiriau ar gyfartaledd yn eu hymatebion, lle roedd y sefydliadau a oedd yn gwrthwynebu wedi darparu 483 o eiriau ar gyfartaledd.

Roedd pob un o'r sefydliadau o'r sector iechyd y cyhoedd a'r sector academaidd/ymchwil heblaw un yn cytuno y dylid codi'r pris. Ac eto, yn y sector cyhoeddus, roedd dau o blith y saith ymatebydd heb benderfynu ac roedd pedwar o blith y categori cymdeithasau masnach/diwydiant yn dal heb benderfynu hefyd, ac un yn y sector masnach, gan gyfrif gyda'i gilydd am 17% o'r ymatebion a oedd heb benderfynu o blith y sefydliadau.  O blith y sefydliadau eraill a ymatebodd i'r ymgynghoriad, roedd 73% yn cytuno. Y sector cymdeithasau masnach/diwydiant oedd yr unig grŵp o sefydliadau i wrthwynebu'r cynnig arfaethedig i godi'r pris.

## Crynodeb o'r ymatebion

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Er hwylustod, mae'r rhain wedi eu torri i lawr fesul categori. O ystyried nifer yr ymatebion gan unigolion a ddywedodd "na" i'r ddau gwestiwn, mae Llywodraeth Cymru wedi crynhoi'r rhain isod. Yn gyffredinol, nid oedd yr ymatebion hyn yn cynnwys gwybodaeth ategol, felly darperir crynodeb ar ffurf pwyntiau bwled. Rydym wedi tynnu manylion ychwanegol allan o'r ymatebion a gyflwynwyd gan y rheiny a oedd yn gefnogol neu a oedd heb benderfynu ynghylch parhau â'r isafbris uned.

**Unigolion a oedd yn anghytuno y dylai'r drefn barhau ac y dylid codi'r pris.**

Roedd nifer mawr o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd y polisi o bennu isafbris uned yn effeithiol o ran cyflawni ei nod arfaethedig, sef lleihau niwed cysylltiedig ag alcohol, a hynny am nad oedd unrhyw dystiolaeth glir o leihad yn nifer y marwolaethau cysylltiedig ag alcohol, y derbyniadau i'r ysbyty, na'r lefelau yfed alcohol. Awgrymodd nifer o'r sylwadau bod yr isafbris uned wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol, megis cynnydd mewn siopa dros y ffin, llai o gymdeithasu, a thwf posibl mewn marchnadoedd alcohol anghyfreithlon.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr unigol yn ystyried bod y drefn o bennu isafbris uned yn cosbi yfwyr cyfrifol, a dywedodd nifer mawr ohonynt y byddent yn prynu alcohol rhatach yn Lloegr.

Roedd gwrthwynebiad cryf i'r hyn yr oedd llawer yn ei ystyried yn broses o fynd yn rhy bell ac yn ymyrraeth gan "wladwriaeth faldodus"; roeddent yn dweud y dylai oedolion gael y rhyddid i wneud eu penderfyniadau eu hunain heb orfodaeth ariannol, yn enwedig yng nghyd-destun costau byw ar hyn o bryd. Dywedodd rhai y gallai'r isafbris uned fod yn faich anghymesur ar y dosbarth gweithiol a'r rheiny ar incwm is.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn ystyried bod y polisi yn annheg ac yn wahaniaethol, a'i fod yn creu gwahaniaeth economaidd rhwng Cymru a Lloegr. Mae galwadau i ddileu'r polisi yn gyfan gwbl yn gyffredin ymhlith y grŵp hwn, gyda'r ymatebwyr yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i beidio â chodi'r pris ond i ganolbwyntio yn lle hynny ar fynd i'r afael ag achosion caethiwed i alcohol a chamddefnyddio alcohol, megis tlodi, problemau iechyd meddwl, a diffyg mynediad at wasanaethau caethiwed.

Cafwyd nifer o sylwadau'n cyfeirio at yr isafbris uned fel "treth lechwraidd" a mesur codi refeniw yn hytrach nag ymyriad iechyd y cyhoedd go iawn. Ystyriwyd mai manwerthwyr mawr a'r archfarchnadoedd oedd yn elwa o'r refeniw ychwanegol a gynhyrchir drwy bennu isafbris uned.

Y prif bwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr unigol oedd:

- Beirniadaeth o'r drefn o bennu isafbris uned: Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod cael isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru yn aneffeithiol, yn annheg, ac nad oedd wedi cyflawni'r bwriad arfaethedig, sef lleihau niwed sy'n

gysylltiedig ag alcohol, lleihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty a lleihau faint o alcohol a gaiff ei yfed yn gyffredinol.

- Yr effaith ar unigolion sydd ar incwm isel: Dywedwyd bod y drefn o bennu isafbris uned yn cael effaith anghymesur ar unigolion ar incwm isel, gan wneud alcohol yn llai fforddiadwy, ond nad oedd yn effeithio ar unigolion cyfoethocach.
- Prynu dros y ffin: Dywedodd nifer mawr y byddent yn mynd i Loegr i brynu alcohol rhatach.
- Effaith negyddol ar y diwydiant lletygarwch: Dywedodd yr ymatebwyr y gallai tafarndai, clybiau a lleoliadau cymdeithasol ei chael hi'n anodd yn sgil llai o fynychwyr, wrth i bobl ddewis "alcohol rhatach yr archfarchnadoedd" neu osgoi mynd allan yn gyfan gwbl.
- Canfyddiad bod y llywodraeth yn mynd yn rhy bell: Caiff y polisi ei feirniadu'n eang fel ymyrraeth gan "wladwriaeth faldodus", ac roedd llawer yn teimlo y dylai oedolion gael y rhyddid i wneud eu penderfyniadau eu hunain heb reolaeth y llywodraeth.
- Anghyfartaledd economaidd rhwng Cymru a Lloegr: Dywedodd nifer mawr ei bod yn annheg bod pobl sy'n byw yng Nghymru yn talu mwy am alcohol na phobl yn Lloegr.
- Diffyg ymddiriedaeth ym muddion y polisi: Mae yna amheuaeth o ran i le y mae'r arian ychwanegol o'r isafbris uned yn mynd, gyda honiadau bod hyn yn dreth lechwraidd neu'n broses i gynhyrchu refeniw i'r llywodraeth, ac roedd eraill yn honni mai manwerthwyr sy'n elwa.

**Ymatebwyr eraill**

**Cwestiwn 1 – Ydych chi'n meddwl y dylai'r isafbris uned barhau yng Nghymru?**

Unigolion

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi parhad y drefn o bennu isafbris uned yn amlygu'r ffaith bod camddefnyddio alcohol yn dal i fod yn fater difrifol a waethygir gan gost isel alcohol o gymharu â thybaco.

Er ei bod yn ymddangos bod agweddau ymhlith pobl ifanc yn symud tuag at yfed alcohol yn gymedrol neu beidio ag yfed alcohol o gwbl, mae niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn dal i fod yn faich mawr ar unigolion, teuluoedd a'r gwasanaethau cyhoeddus.

Roedd cefnogaeth gref i bolisïau'n ymwneud ag alcohol, gan gynnwys parhau â'r isafbris uned, sydd wedi cael effeithiau cadarnhaol yng Nghymru ac yn yr Alban drwy leihau faint o ddiodydd rhad a chryf sy'n cael eu hyfed.

Roedd y mesurau hyn yn cael eu hystyried yn ddatganiad o fwriad clir gan Lywodraeth Cymru ac yn her i fanwerthwyr gyfiawnhau arferion marchnata niweidiol. Cyfeiriwyd at dystiolaeth a data epidemiolegol o'r cynnig a oedd yn cefnogi effeithiolrwydd ymyriadau o'r fath.

Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cefnogi parhad yr isafbris uned wedi mynegi pryderon cymdeithasol ehangach.

Gwnaeth yr unigolion a oedd heb benderfynu ynghylch a ddylai'r drefn o bennu isafbris uned barau fynegi safbwyntiau cymysg o ran y polisi, gan gwestiynu ei effeithiolrwydd o ran newid ymddygiadau ar lefel y boblogaeth. Nodwyd ganddynt fod tystiolaeth o'r Alban yn awgrymu mai bach iawn yw'r effaith, ac amlygwyd pryderon o ran dibynadwyedd yr ymchwil a ddefnyddiwyd i gefnogi'r polisi. Er eu bod yn cydnabod y dadleuon ar ddwy ochr y drafodaeth ynghylch prisio, roeddent yn amau a oedd y polisi yn newid arferion unigol yn sylweddol, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n gaeth dros ben.

<u>Y trydydd sector</u>
Roedd pob un o ymatebwyr y trydydd sector yn cefnogi'r cynnig i barhau â'r isafbris uned yng Nghymru.
Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y ddau gynnig – parhau â'r drefn o bennu isafbris uned a chodi'r pris i 65c yn uned – yn hanfodol er mwyn cynnal effeithiolrwydd y polisi.

Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod yr isafbris uned yn bolisi effeithiol er mwyn lleihau faint o alcohol gaiff ei yfed, nifer y derbyniadau i'r ysbyty, a nifer y marwolaethau cysylltiedig ag alcohol. Roedd yr ymatebwyr yn credu bod yr isafbris uned yn gyfrifol am gael gwared ar gynhyrchion alcoholig rhad a chryf iawn o'r farchnad, er enghraifft poteli mawr o seidr cryf a gwirodydd cost-isel.

Cyfeiriwyd at werthusiadau'r Alban fel tystiolaeth gref i gefnogi parhad yr isafbris uned, yn ogystal â data o Gymru, sy'n dangos lleihad o ran faint o alcohol sy'n cael ei brynu a chynnydd arafach yn y lefelau yfed o gymharu â Lloegr, yn enwedig ymhlith yfwyr trwm. Amlygodd ymatebwyr y trydydd sector bryderon y gallai cael gwared ar yr isafbris uned arwain at gynyddu faint o alcohol a gaiff ei yfed ac arwain at gostau ychwanegol i'r GIG.

Dywedwyd na wireddwyd ofnau yng Nghymru ynghylch siopa dros y ffin, gwerthiannau alcohol anghyfreithlon, neu gynhyrchu mwy o alcohol gartref. Nododd y rhanddeiliaid hefyd ei bod wedi'i brofi nad oedd sail i bryderon y diwydiant ynghylch effeithiau negyddol ar fasnach.

Mynegwyd pryderon y gallai caniatáu i'r isafbris uned ddod i ben yn 2026 greu heriau ychwanegol i Lywodraeth Cymru o ran ymateb i niwed yn sgil alcohol yn y dyfodol, a hynny oherwydd y gofyniad am gymeradwyaeth gan Lywodraeth y DU.

<u>Ymatebwyr y sector iechyd</u>
Mae parhad yr isafbris uned yn cael ei gefnogi'n eang ledled cyrff iechyd, polisi a phroffesiynol yng Nghymru fel mesur iechyd y cyhoedd effeithiol i leihau'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn enwedig ymhlith yfwyr agored i niwed a dibynnol.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno ei fod wedi llwyddo i gael gwared ar gynhyrchion alcohol rhad a chryf iawn o'r farchnad, er enghraifft seidr gwyn, ac nad oedd wedi arwain at ddefnydd mawr o sylweddau mwy niweidiol yn eu lle.

Fodd bynnag, pwysleisiodd y rhanddeiliaid nad yw'r isafbris uned ar ei ben ei hun yn ddigon, a rhaid iddo fod yn rhan o strategaeth ehangach sy'n mynd i'r afael â fforddiadwyedd, argaeledd a dulliau marchnata gwasanaethau triniaeth a chymorth,

yn ogystal â'r mynediad atynt. Roedd pryderon o hyd o ran y straen ariannol i unigolion ar incwm isel sy'n ddibynnol ar alcohol, gan amlygu'r angen am ofal sy'n ystyriol o drawma, cymorth maethol, ac allgymorth cymunedol.

Roedd galwad hefyd am gyfathrebu gwell â'r cyhoedd ynghylch diben a buddion y polisi, ochr yn ochr â gwerthusiad cadarn, hirdymor i asesu ei effaith ar ganlyniadau iechyd, anghydraddoldebau, a'r galw ar y gwasanaeth.

Roedd yr ymatebwyr yn y sector hwn yn ystyried bod yr isafbris uned nid yn unig yn offeryn i leihau niwed yn sgil alcohol, ond ei fod hefyd yn cyfrannu at nodau ehangach Cymru o ran tegwch iechyd ac atal o dan fentrau megis Cenedl Marmot a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

<u>Y sector cyhoeddus</u>
Roedd cefnogaeth eang ymhlith ymatebwyr y sector cyhoeddus i'r isafbris uned fel mesur iechyd y cyhoedd sy'n ceisio lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Ystyriwyd bod yr isafbris uned wedi lleihau argaeledd alcohol cost-isel a chryf iawn ac wedi cyfrannu at y broses o leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed yn gyffredinol. Ar y cyfan, nid oedd sail i'r pryderon ynghylch mwy o ddefnydd o gyffuriau a dwyn o siopau.

Mynegwyd pryderon y gallai cael gwared ar yr isafbris uned wrthdroi'r effaith hon a gwneud alcohol rhad a chyffuriau'n fwy hygyrch.

Amlygodd yr ymatebwyr y ffaith nad yw'r isafbris uned yn ddatrysiad ar ei ben ei hun. Mae angen i'r isafbris uned fod yn rhan o strategaeth ehangach, sy'n cynnwys addysg, cymorth i yfwyr dibynnol, a mynediad at wasanaethau gofal ac iechyd cymdeithasol.

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi aliniad y polisi ag uchelgais Llywodraeth Cymru o ran Cenedl Marmot.

Mynegwyd pryderon nad oedd dangosyddion niwed allweddol, megis marwolaethau cysylltiedig ag alcohol a derbyniadau i'r ysbyty, wedi dangos gwelliant, fodd bynnag, awgrymwyd bod hyn yn rhannol oherwydd ffactorau allanol fel y pandemig a'r argyfwng costau byw.

Yn y sector hwn, amlygwyd y ffaith bod swyddogion Safonau Masnach yn chwarae rôl hollbwysig o ran gorfodi rheoliadau'r isafbris uned oherwydd eu bod yn sicrhau y cydymffurfir â'r polisi, yn galluogi cysondeb i fusnesau, ac yn diogelu masnachwyr cyfrifol. Mynegwyd pryderon bod swyddogion yn wynebu pwysau cynyddol a chyfyngiadau ar adnoddau, a oedd, o bosibl, yn cael effaith negyddol ar eu rôl o ran cynnal effeithiolrwydd yr isafbris uned, ac y dylid ystyried hyn fel rhan o fesurau polisi y dyfodol.

Roedd yr ymatebwyr a oedd heb benderfynu yn dadlau bod angen tystiolaeth fwy cadarn i ddangos effeithiolrwydd yr isafbris uned o ran lleihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty, trais, troseddau, a marwolaethau cysylltiedig ag alcohol, a bod angen rhagor o ymchwil i ddeall y canlyniadau anfwriadol a hirdymor.

Nodwyd bod prynu alcohol dros y ffin yn her a allai danseilio effeithiolrwydd y polisi a chael effaith negyddol ar economi Cymru. Gwnaed honiadau y gallai'r isafbris uned gael effaith negyddol ar y sector lletygarwch wrth i gynnydd yn y nifer sy'n yfed gartref arwain at swyddi'n cael eu colli. Gallai tafarndai gael eu gorfodi i godi prisiau bwyd i wneud iawn am werthiannau alcohol is, gan annog cwsmeriaid i beidio â'u mynychu ac effeithio ar fasnach.

I gloi, roedd yr ymatebwyr a oedd heb benderfynu yn ystyried bod yr isafbris uned yn offeryn gwerthfawr, o bosibl, yr oedd angen ei ategu â systemau cymorth cynhwysfawr, ymchwil wedi'i thargedu, ac angen am ddulliau cyfathrebu ac addysg well mewn perthynas â'r polisi.

Cymdeithasau diwydiant/masnach

I gryn raddau, mynegodd cynrychiolwyr y sector eu cefnogaeth i'r isafbris uned, gan gydnabod y buddion o ran iechyd y cyhoedd, ac roeddent yn ei ystyried yn rhan werthfawr o'r strategaeth ehangach i leihau'r arfer o gamddefnyddio alcohol.

Nododd y sector fod y polisi'n llai tebygol o effeithio ar fanwerthwyr annibynnol llai o gymharu â chadwyni archfarchnadoedd mwy, oherwydd nad ydynt fel arfer yn cadw'r cynhyrchion alcohol rhataf a dargedir gan yr isafbris uned. Fodd bynnag, roedd pryderon ynglŷn â phrynu dros y ffin, a'r heriau gweithredol i fasnachwyr sydd wedi'u lleoli ger y ffin, a allai gymhlethu cydymffurfiaeth a'r negeseuon i ddefnyddwyr.

Fodd bynnag, roedd y sector yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar y gwaith cydweithredol â Llywodraeth Cymru yn ystod y broses gychwynnol o weithredu'r isafbris uned yn 2020, a llwyddwyd i gyflawni'r polisi mewn modd effeithiol drwy gyd-ymdrech o ran datblygu'r canllawiau a chyfathrebu â'r cyhoedd. Roedd hyn wedi sicrhau bod y defnyddwyr yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r polisi a'i oblygiadau o ran prisiau. Gofynnwyd am ddull cydweithredol tebyg pe byddai'r pris fesul uned yn cael ei godi, yn ogystal â chyfnod gweithredu rhesymol i alluogi busnesau i addasu.

Lle nad oedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylid parhau â'r isafbris uned, roeddent yn dadlau bod system tollau alcohol 2023 Llywodraeth y DU yn cynnig dull mwy effeithiol a chymesur na'r isafbris uned. Mae'r system hon yn trethu cynhyrchion yn seiliedig ar eu cynnwys alcohol, gan roi cymhelliad i gynhyrchwyr ostwng cryfder eu cynhyrchion a, thrwy hynny, leihau niwed. Nododd yr ymatebwyr fod y refeniw o gynhyrchion cryfach yn yr achos hwn yn cael ei gyfeirio at wasanaethau cyhoeddus.

Dadleuwyd nad yw'r isafbris uned wedi arwain at y canlyniadau arfaethedig o ran iechyd y cyhoedd, wrth i Gymru brofi cynnydd uwch mewn marwolaethau sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol na chenhedloedd eraill y DU yn ystod y cyfnod. Awgrymwyd bod yr isafbris uned wedi cael effaith anghymesur ar yfwyr dibynnol ac yfwyr ar incwm isel, gan eu gwthio at ddiodydd alcoholig cryfach a gwaethygu caledi ariannol.

Roedd y sector wedi ystyried gwerthusiadau o'r Alban, lle roedd polisïau tebyg wedi cael eu rhoi ar waith, ac roedd yn dadlau nad oedd y rhan fwyaf o astudiaethau'n dangos gwelliannau i ganlyniadau iechyd a oedd yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol, gyda dim ond un yn dangos llai o farwolaethau o gyflyrau cronig cysylltiedig ag alcohol. Roedd y sector yn dadlau nad oedd yr isafbris uned wedi

lleihau nifer y marwolaethau cysylltiedig ag alcohol, nifer y derbyniadau i'r ysbyty, na faint o alcohol a gaiff ei yfed yn gyffredinol yng Nghymru.

Roedd y sector yn dadlau bod rheolaethau prisio a gyflwynir gan y llywodraeth yn cosbi defnyddwyr cyfrifol ac yn ffrwyno arloesedd, ac wedi arwain at straen economaidd ar fusnesau, yn enwedig ym maes manwerthu a lletygarwch, wrth i ddefnyddwyr chwilio am ddewisiadau rhatach ar draws ffiniau. Roedd yn rhybuddio bod parhau â pholisi nad yw wedi cyflawni ei amcanion yn peryglu tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd mewn ymyriadau'r llywodraeth yn y dyfodol a'r broses o lunio polisïau dan arweiniad tystiolaeth.

Nododd yr ymatebwyr a oedd heb benderfynu eu bod yn cymryd rhan weithgar mewn mentrau a anelir at leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, eu bod yn aelodau o'r Protman Group, eu bod yn cefnogi Drinkaware, a'u bod wedi ymrwymo i yfed alcohol mewn modd cyfrifol. Gwnaethant nodi bod yr ymdrechion hyn wedi cael eu gwerthuso'n annibynnol a'u bod yn cael eu cyfrif yn effeithiol.

Cwestiynwyd effeithiolrwydd yr isafbris uned fel mesur ar gyfer y boblogaeth gyfan, gan nodi bod nifer y marwolaethau cysylltiedig ag alcohol wedi cynyddu yng Nghymru, ac awgrymwyd ymyriadau penodol, megis cynnwys gwasanaethau triniaeth alcohol lleol cadarn a phartneriaethau cymunedol yn hytrach na pholisïau prisio.

Academaidd/ymchwil

Dim ond dau ymatebydd oedd yn y categori hwn, ac roedd y ddau yn cefnogi parhad yr isafbris uned yng Nghymru. Yn eu barn nhw, roedd hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth, sy'n cefnogi'n gryf y cynnig i barhau â'r isafbris uned a'i uwchraddio yng Nghymru. Eu barn nhw oedd bod hyn yn bolisi profedig, costeffeithiol, sy'n lleihau faint o alcohol a gaiff ei yfed, yn lliniaru anghydraddoldebau iechyd, ac yn cefnogi nodau o ran iechyd y cyhoedd.

**Cwestiwn 2 – Os bydd isafbris uned yn parhau, a ydych yn cytuno â phennu lefel newydd o 65c yr uned?**

Unigolion

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gynyddu'r lefel, gan gyfeirio at dystiolaeth o'r Alban a'r angen i alinio â chwyddiant, a fyddai'n helpu i leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed, yn lleddfu pwysau ar y gwasanaethu iechyd, ac yn annog arferion marchnata mwy moesegol gan weithgynhyrchwyr diodydd. Roedd cefnogaeth hefyd i gynnydd graddol dros amser ac y dylai hyn gael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Ymhlith yr ymatebwyr a oedd heb benderfynu a ddylid codi'r pris o 50c i 65c, mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith negyddol y gallai'r polisi ei chael ar y sector lletygarwch, sydd eisoes o dan bwysau difrifol. Gwnaethant awgrymu dull prisio gwahaniaethol, gan gynnal isafbris uned is ar gyfer alcohol a gaiff ei werthu mewn tafarndai (50c), a'i gynyddu ar gyfer archfarchnadoedd (65c), i gefnogi'r diwydiant ac i annog pobl i yfed mewn tafarndai/bwytai.

Y trydydd sector

Amlygodd yr ymatebwyr fod chwyddiant wedi lleihau effaith y terfyn 50c cyfredol yn sylweddol, a rhagamcanwyd y byddai ei werth mewn termau real yn cwympo i 39c erbyn 2026. Awgrymwyd hefyd y byddai uwchraddio i 65c yn adfer effaith wreiddiol y polisi, ac awgrymwyd y byddai gweithredu mecanwaith uwchraddio awtomatig yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau bod y polisi yn cadw i fyny â chwyddiant dros amser.

Nododd yr ymatebwyr fod y gefnogaeth eang i gynyddu'r isafbris uned ar draws gwahanol sefydliadau iechyd y cyhoedd, elusennau a chyrff ymchwil yn rheswm pellach dros gefnogi'r cynnig i godi'r isafbris uned i 65c. Byddai alinio'r isafbris uned yng Nghymru â'r pris sydd wedi'i osod yn yr Alban hefyd yn helpu i greu cysondeb.

Roedd y rhanddeiliaid hefyd yn dadlau y byddai codi pris yr uned yn annog pobl i beidio â swmpbrynu ac yn cyfyngu ar gynigion amleitem, yn arbennig yn y categorïau a gysylltir amlaf ag yfed niweidiol. Byddai'r effaith ddisgwyliedig ar dafarndai a bwytai yn fach iawn, gan fod y prisiau yn y lleoliadau hyn eisoes yn fwy na'r trothwy arfaethedig.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr y dystiolaeth yn y data a modelwyd, sy'n dangos y gallai codi'r isafbris uned i 65c leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed, atal cannoedd o farwolaethau cysylltiedig ag alcohol, ac arbed miliynau mewn costau'r GIG dros 20 mlynedd, a gwnaethant nodi bod cynnal y trothwy cyfredol o 50c yn peryglu gwrthdroi'r gwelliannau hyn a chynyddu'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Gwnaeth yr ymatebwyr ddiystyru pryderon ynghylch cynnydd posibl mewn siopa dros y ffin pe byddai'r isafbris uned yn codi i 65c, a hynny oherwydd diffyg tystiolaeth gefnogol yn y gwerthusiadau o'r isafbris uned.

Nododd yr ymatebwyr y dylai'r isafbris uned fod yn rhan o strategaeth ehangach i leihau niwed yn sgil alcohol, sy'n cynnwys addysg, triniaeth, a gwasanaethau cymorth. Ystyriwyd hefyd bod strategaeth alcohol drwy'r DU gyfan yn angenrheidiol i fynd i'r afael ag ymddygiadau yfed sy'n esblygu a niwed cynyddol.

<u>Ymatebwyr y sector iechyd</u>

Roedd yr ymatebwyr o'r sector iechyd yn cefnogi'r cynnig i godi'r isafbris uned ar gyfer alcohol i 65c yr uned, ac yn dweud bod hynny'n angenrheidiol i gynnal ei effeithiolrwydd, yn enwedig yn wyneb chwyddiant. Nid oedd yr un ymatebydd yn erbyn y cynnig. Amlygwyd ganddynt fod y trothwy gwreiddiol o 50c wedi colli ei effaith dros amser, ac y byddai codi'r isafbris uned yn adfer ei werth arfaethedig, ond y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'w uwchraddio'n fwy aml. Ystyriwyd bod alinio Cymru â'r Alban, sydd eisoes wedi mabwysiadu'r trothwy 65c, yn gam rhesymegol.

Er bod y polisi'n cael ei gefnogi, roedd pryderon ynglŷn â'i effaith ar unigolion dan anfantais economaidd, yn enwedig y rhai sy'n ddibynnol ar alcohol. Galwodd y rhanddeiliaid am fwy o fuddsoddi mewn gwasanaethau triniaeth, ymyriadau cynnar, a chymorth ariannol i liniaru'r risgiau hyn.

Er bod yr isafbris uned yn cael ei gydnabod yn eang fel offeryn iechyd y cyhoedd effeithiol, mae'r ymatebwyr yn nodi nad yw'n ddatrysiad ar ei ben ei hun, a bod angen strategaeth gynhwysfawr i leihau'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, sy'n cynnwys rheoleiddio ehangach ar gyfer hysbysebu, hyrwyddo, a labelu alcohol, yn debyg i'r hynny sydd ar waith ar gyfer tybaco. Amlygodd rhai o'r ymatebwyr yr angen

i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach camddefnyddio alcohol, gan gynnwys tlodi, ansicrwydd o ran tai, ac iechyd meddwl.

Awgrymodd yr ymatebwyr y dylai ymgyrchoedd ymgysylltu â'r cyhoedd bwysleisio buddion iechyd a'r effaith ar gymdeithas yn sgil lleihau faint o alcohol a yfir, yn enwedig mewn cymunedau o amddifadedd. Nodwyd hefyd bwysigrwydd monitro a gwerthuso parhaus er mwyn asesu effaith hirdymor yr isafbris uned, yn enwedig ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys gwelliannau mewn casglu data ar amseroedd aros a chanlyniadau triniaeth i yfwyr niweidiol.

Y sector cyhoeddus
Nododd y sector fod pwysau chwyddiannol sylweddol wedi erydu effeithiolrwydd y polisi, ac nad yw'r gyfradd gyfredol yn effeithio mwyach ar fforddiadwyedd y cynhyrchion alcohol rhataf, cryfach a gysylltir amlaf ag yfed niweidiol. Nododd yr ymatebwyr fod y gyfradd a gynigir, sef 65c, yn alinio â'r argymhellion ym mhapur Prifysgol Sheffield ac yn adlewyrchu'r isafbris uned a ddiweddarwyd yn yr Alban, ac felly'n atgyfnerthu cysondeb ar draws llywodraethau datganoledig.

Cafwyd rhai awgrymiadau ynglŷn â phroses adolygu reolaidd, o bosibl bob dwy flynedd, ac roedd rhai o'r ymatebion yn dadlau y byddai mynegeio'r isafbris uned â chwyddiant, megis y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, yn sicrhau ei hyfywedd a'i effeithiolrwydd hirdymor. Roeddent o'r farn bod hyn yn cael ei gefnogi ymhellach gan y gwaith modelu, sy'n awgrymu y gallai methu ag addasu'r gyfradd beri i fwy o alcohol gael ei yfed, yn enwedig ymhlith poblogaethau sy'n wynebu amddifadedd, gan arwain at filoedd o flynyddoedd ychwanegol o fywyd yn cael eu colli a miliynau o gostau ychwanegol i'r GIG.

Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig i godi'r isafbris uned i 65c, a dadleuwyd y byddai hynny'n atal mwy na 500 o farwolaethau'n sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol ac yn arbed bron £15 miliwn i'r GIG dros ddau ddegawd, gyda'r buddion mwyaf yn cronni yn y cymunedau sy'n wynebu'r amddifadedd mwyaf.

Roedd pryderon fodd bynnag ynghylch y potensial ar gyfer canlyniadau anfwriadol, er enghraifft newid o alcohol i gyffuriau anghyfreithlon pe byddai'r prisiau'n dod yn debyg i'w gilydd. Teimlwyd bod y risg hon yn arbennig o acíwt ymhlith grwpiau agored i niwed, gan gynnwys yfwyr dibynnol ac unigolion ag anghenion cymhleth. Roedd pryder hefyd o ran yr effaith ar gymunedau gwledig, lle mae alcohol yn aml yn chwarae rôl mewn cymdeithasu. Gallai costau cynyddol atal yfed cymdeithasol a gallai unigolion deimlo'n fwy ynysig, gan waethygu materion iechyd meddwl o bosibl.

Cafwyd awgrym yn ymwneud â chlustnodi cyfran o refeniw'r isafbris uned i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau iechyd, plismona, ac adfer – byddai hyn yn sicrhau bod y polisi nid yn unig yn atal yfed niweidiol ond hefyd yn cefnogi'r rheiny y mae'n effeithio arnynt.

O safbwynt gorfodi, roedd y swyddogion Safonau Masnach yn nodi bod busnesau, yn gyffredinol, wedi addasu'n dda i'r isafbris uned a bod parhau i gydymffurfio ar drothwy uwch yn ymarferol, ar yr amod bod yna gyfathrebu clir. Fodd bynnag, nodwyd pryderon y gallai cyfradd uwch wthio'r galw tuag at farchnadoedd anffurfiol neu anghyfreithlon, gan gynyddu'r baich ar asiantaethau gorfodi.

Nododd yr ymatebwyr a oedd heb benderfynu fod yna, yn gyffredinol, ddiffyg ymwybyddiaeth o ran rôl Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r isafbris uned, ac nid oedd llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau'n ymwybodol o darddiad nac amcanion y polisi. Teimlwyd y gallai cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o pam y cafodd yr isafbris uned ei gyflwyno, y modd y mae'n gweithio, a pha fuddion y mae am eu cyflawni, helpu i feithrin cymorth ac ymddiriedaeth ehangach, ac y byddai'n lleihau'r canfyddiad ei fod yn bris mympwyol yn hytrach nag yn ymyriad iechyd y cyhoedd penodol.

Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â hyrwyddiadau swmpbrynu archfarchnadoedd, ac a ydynt yn dal i gynnig alcohol islaw trothwy'r isafbris uned. Awgrymwyd y gallai hyn danseilio bwriad y polisi a'i fod yn amlygu'r angen am gyfathrebu cliriach ynghylch y modd y mae'r isafbris uned yn cael ei gyfrifo a'i orfodi, yn enwedig yng nghyd-destun prisiau hyrwyddo. Nododd yr ymatebwyr yn y sector hwn hefyd fod yr isafbris uned wedi arwain at newidiadau ymddygiadol, lle mae defnyddwyr yn swmpbrynu ac yn cronni alcohol yn ystod hyrwyddiadau fwyfwy, ac yn aml yn dewis yfed ar eu pen eu hunain yn hytrach nag yn gymdeithasol. At hynny, mae rhai'n dadlau bod bragu gartref wedi cael ei ystyried yn ddewis arall ar gyfer arbed arian. Yn yr un modd â'r ymatebion eraill, tynnwyd sylw at siopa dros y ffin.

Roedd galwadau am ragor o ddealltwriaeth o'r modd y mae'r polisi'n effeithio ar gymunedau gwahanol, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig neu'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol. Roedd rhai'n dadlau na fyddai codi'r isafbris uned yn newid y galw'n sylweddol, ac eithrio ymhlith y rhai a chanddynt adnoddau ariannol cyfyngedig, er y gallai hyn arwain at gynnydd mewn dwyn o siopau ymhlith y rhai a fyddai wedi eu prisio allan o'r gallu i brynu alcohol. Mewn rhai ardaloedd, roedd achosion dyddiol eisoes o ddwyn eitemau uchel eu gwerth o siopau diodydd trwyddedig. Awgrymwyd y gallai'r cynig i godi'r isafbris uned ymhellach waethygu'r broblem hon, ac roedd galwadau am ddulliau gorfodi cadarn a chymorth i fanwerthwyr sy'n wynebu risgiau uwch o ddwyn.

<u>Cymdeithasau diwydiant/masnach</u>
Roedd cefnogaeth eang gan un grŵp diwydiant i'r cynnig i godi'r pris, a hynny er mwyn cadw i fyny â chwyddiant a chynnal effeithiolrwydd y polisi.

Yn gyffredinol, roedd gwrthwynebiad cryf i'r cynnig i godi'r isafbris uned ar gyfer alcohol i 65c yr uned. Y prif bryder oedd na fyddai codi'r pris yn effeithiol o ran lleihau yfed niweidiol ymhlith unigolion dibynnol neu unigolion sy'n wynebu risg. Awgrymodd yr ymatebwyr y gallai arwain at ganlyniadau anfwriadol, er enghraifft yfwyr yn newid i wirodau cryf iawn er mwyn cael cymaint o alcohol â phosibl am y gost isaf neu'n newid i sylweddau anghyfreithlon. Gwnaethant gyfeirio at astudiaeth Iechyd y Cyhoedd Alban 2023, lle'r oedd yr isafbris uned wedi arwain at straen ariannol ymhlith unigolion sy'n ddibynnol ar alcohol, a fydd yn aml yn gwario llai ar hanfodion er mwyn cynnal eu harferion yfed. Tynnodd y sector sylw hefyd at y risg o fasnachu dros y ffin.

Roedd y sector yn teimlo bod y gwaith modelu ond yn dangos gostyngiadau bach yn unig mewn yfed a niwed, ac yn cwestiynu dibynadwyedd yr amcanestyniadau hyn o gymharu â'r canlyniadau a welir. Roeddent yn dadlau y dylai penderfyniadau

ynghylch polisïau fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, hirdymor yn hytrach na gwaith modelu tybiannol, o ystyried natur gymhleth niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Roedd yr ymatebwyr yn dadlau nad oedd mecanweithiau prisio fel yr isafbris uned yn llwyddo i fynd i'r afael ag achosion gwaelodol caethiwed, ac yn lle hynny roeddent yn dadlau o blaid dull gweithredu mwy cyfannol, er enghraifft mwy o fynediad at gymorth iechyd meddwl, therapi, ymgyrchoedd addysg i'r cyhoedd, rhaglenni ymyrryd yn gynnar, tai, a gwasanaethau adsefydlu sydd, yn eu barn nhw, yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau mewn modd effeithiol.

Amlygodd cynrychiolwyr y sector hefyd fuddion hyrwyddo cynhyrchion sy'n cynnwys llai o alcohol neu sydd heb alcohol. Yn eu barn nhw, gellid priodoli tuedd y DU tuag at yfed llai o alcohol, llai o oryfed mewn pyliau, a llai o ddigwyddiadau cysylltiedig ag alcohol i newidiadau diwylliannol a mentrau lles y cyhoedd penodol. Roeddent hefyd o'r farn bod y diwygiadau trethi sy'n creu cymhelliant ar gyfer llai o gynhyrchion alcohol yn ôl cyfaint (ABV) yn fwy effeithiol a theg na'r isafbris uned.

Mynegodd y sector bryder hefyd o ran goblygiadau ariannol yr isafbris uned. Mae'r sector wedi wynebu cynnydd mewn costau o ganlyniad i newidiadau yn yr isafswm cyflog cenedlaethol, ardrethi busnes, a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Mae'r sector wedi dadlau y byddai codi prisiau ymhellach drwy'r isafbris uned yn lleihau incwm gwario defnyddwyr, yn enwedig ar gyfer yfed gartref, ac yn cael effaith negyddol ar leoliadau lletygarwch.

Nododd rhai o gynrychiolwyr y sector a oedd heb benderfynu ar y cwestiwn hwn fod yr isafbris uned gwreiddiol o 50c wedi cael effaith fach iawn ar fanwerthwyr cyfleustra, gan fod y rhan fwyaf o gynhyrchion alcohol eisoes yn cael eu prisio uwchben y trothwy hwn. Roedd yr adborth gan eu haelodau'n nodi bod yr isafbris uned wedi arwain at ychydig o newidiadau o ran yr ystod o gynnyrch, gan effeithio'n benodol ar ddiodydd alcohol cryfach, lle mae cwsmeriaid wedi symud i ffwrdd oddi wrthynt. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch yr effaith y byddai isafbris uned o 65c yn ei chael ar argaeledd cynhyrchion, yn enwedig eitemau llai cryf o bris canolig a chanddynt gyfaint isel, nad effeithiwyd arnynt yn flaenorol.

Gwnaeth ymatebwyr y sector a oedd heb benderfynu fynegi amheuon ynghylch y cynnydd arfaethedig i 65c wrth ei ystyried ochr yn ochr â'r Cynllun Dychwelyd Ernes sydd ar y gweill. Roeddent yn dadlau nad oedd effaith gyfunol y polisïau hyn wedi cael ei hasesu'n llawn, ac y gallai newidiadau i brisiau mewn cysylltiad â'r Cynllun Dychwelyd Ernes danseilio amcanion yr isafbris uned.

Roedd pryderon y gallai isafbris uned cyfradd wastad ar y cyd â'r Cynllun Dychwelyd Ernes gael yr effaith anfwriadol o annog pobl i yfed cynhyrchion alcohol mwy cryf. Er enghraifft, gallai aml-becyn o gwrw ddod yn fwy drud na photel o fodca, gan groes-ddweud y system tollau alcohol flaengar a gyflwynwyd gan Drysorlys EF, sy'n trethu diodydd yn seiliedig ar gynnwys alcohol er mwyn cefnogi nodau o ran iechyd y cyhoedd. Mae'r sector yn argymell ymchwil bellach cyn i unrhyw brisiau gael eu codi.

Mae un o gynrychiolwyr y diwydiant yn cefnogi'r syniad o alinio'r isafbris uned â'r pris a godir am uned yn yr Alban, sef 65c, ond mae'n argymell na ddylai unrhyw

newidiadau gael eu gweithredu cyn mis Ionawr 2027 oherwydd cyfyngiadau gweithredol megis rhewi prosesau TG, hyfforddiant staff, a chydymffurfiaeth rheoleiddiol. Nododd yr ymatebwyr bwysigrwydd cyfathrebu clir â defnyddwyr ynghylch codi prisiau mewn perthynas â'r isafbris uned. Roedd gwrthwynebiad cryf i unrhyw esblygiad i polisi'r isafbris uned sy'n cyflwyno unrhyw uwchraddio gysylltiedig â chwyddiant rheolaidd neu symudiad tuag at fodel treth isafbris uned.  Maent yn awgrymu y byddai newidiadau o'r fath yn gosod baich anymarferol ar fanwerthwyr, a'u bod yn anghyson â bwriad gwreiddiol yr isafbris uned.

Ni nododd y sector unrhyw enillion refeniw sylweddol o'r isafbris uned yn sgil gwrthbwyso gostyngiad mewn gwerthiannau a chostau gweithredu.  Roedd cefnogaeth i'r syniad o ymdrin ag unrhyw gynnydd yn y dyfodol mewn modd gofalus, gan bwysleisio cymhlethdod niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol a dadlau o blaid ymyriadau ar lefel unigol. Er nad oedd gwrthwynebiad i'r gyfradd arfaethedig o 65c, codwyd cwestiynau ynghylch y rhesymeg y tu ôl i'r ffigur, ac argymhellwyd y dylai newidiadau yn y dyfodol gael ei seilio ar fecanweithiau tryloyw, seiliedig ar dystiolaeth megis mynegeio chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, a fyddai, yn ddelfrydol, yn cael eu hadolygu bob pum mlynedd.

Mynegwyd pryderon ynghylch amseriad newidiadau rheoleiddiol yn 2026, a'r ffaith eu bod yn gorgyffwrdd, a hynny'n cynnwys yr isafbris uned, cyfyngiadau ar gynhyrchion uchel mewn braster, halen a siwgr, a rheoleiddiadau prisio ledled y DU, a allai roi straen ar allu gweithredol manwerthwyr.

Dywedwyd bod siopa dros y ffin wedi cael ei nodi'n risg, oherwydd y posibilrwydd y byddai defnyddwyr yn osgoi siopau Cymru ac yn prynu alcohol rhatach yn Lloegr. Roedd cais am eglurder hefyd o ran manwerthwyr ar-lein yn dosbarthu yng Nghymru, ac am gael hyn wedi'i gynnwys mewn canllawiau yn y dyfodol.

Pwysleisiodd y sector yr angen am amser arwain o 9 i 12 mis ar gyfer unrhyw newidiadau i ganiatáu ar gyfer addasiadau i'r ystod o gynhyrchion a chydymffurfio â'r Cod Ymarfer Cyflenwi Nwyddau Groser. Roedd galwadau am ganllawiau clir, amserlenni gweithredu teg, ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd cadarn i gefnogi manwerthwyr a defnyddwyr. Ystyriwyd bod alinio â chyfradd yr isafbris uned yn yr Alban yn fuddiol er mwyn cadw cysondeb gweithredol, yn enwedig o ystyried cymhlethdod unedau cadw stoc alcohol a chostau cysylltiedig megis tollau cartref, TAW a ffioedd cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr.

<u>Academaidd/ymchwil</u>
Roedd y ddau ymatebydd yn cefnogi'r cynnig i godi'r isafbris uned, gan ddatgan bod y dystiolaeth yn gefnogol iawn o'r cynnig i barhau â'r isafbris uned a'i uwchraddio yng Nghymru. Yn eu barn nhw, mae codi i 65c yr uned yn hanfodol i gynnal effeithiolrwydd y polisi a bydd angen codi'r pris ymhellach, neu gael mecanwaith awtomatig cysylltiedig â chwyddiant, i'w atal rhag erydu.

Roeddent yn dweud bod y gwaith modelu'n dangos y bydd methu â gweithredu yn niweidio'r cymunedau mwyaf difreintiedig ac yn cynyddu nifer y marwolaethau cysylltiedig ag alcohol. Gwnaethant ddweud hefyd y dylai isafbris uned gael ei ymgorffori mewn strategaeth genedlaethol ehangach i fynd i'r afael â niwed yn sgil alcohol mewn modd cynhwysfawr a theg.

**Cwestiwn 3 – Beth yw eich barn am effaith debygol parhad isafbris uned a chynnydd yn y pris fesul uned i 65c ar grwpiau penodol o bobl, yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi?**

Unigolion

Roedd yr unigolion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn wedi ategu'r pryderon a fynegwyd mewn atebion i gwestiynau blaenorol, sef y gallai'r cynnig i godi'r isafbris uned yng Nghymru effeithio'n anghymesur ar unigolion ar incwm isel a grwpiau agored i niwed, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cyflwynodd llawer ohonynt ddadleuon bod y polisi'n cosbi yfwyr cyfrifol, yn enwedig pobl hŷn, unigolion anabl, a rhieni sengl, a allai yfed alcohol at ddibenion cynhwysiant cymdeithasol neu leddfu straen.

Thema sy'n codi dro ar ôl tro yw canfyddiad y cyhoedd o aneffeithiolrwydd yr isafbris uned o ran lleihau dibyniaeth ar alcohol. Mae llawer o'r ymatebwyr o'r farn y bydd y rhai sy'n ddibynnol ar alcohol yn parhau i yfed ni waeth beth yw'r pris, a hynny'n aml ar draul hanfodion megis bwyd neu filiau.

Amlygodd yr ymatebwyr hefyd ganlyniadau anfwriadol y polisi, er enghraifft mwy o achosion o ddwyn o siopau, bragu gartref, a phrynu alcohol dros y ffin. Ystyrir bod y sector lletygarwch yn arbennig o agored i niwed, a mynegodd yr ymatebwyr bryderon ynghylch tafarndai'n cau, swyddi'n cael eu colli, a llai o dwristiaeth oherwydd prisiau alcohol uwch.

Yn gyffredinol, mynegodd yr unigolion y farn bod yr isafbris uned yn faich annheg ar y mwyafrif am weithredoedd y lleiafrif, a'i fod yn dyfnhau anghydraddoldebau cyfredol heb ddarparu gwelliannau ystyrlon o ran canlyniadau iechyd.

Y trydydd sector

Amlinellodd yr ymatebwyr bryderon ynglŷn ag effaith y polisi ar yfwyr dibynnol a chanddynt incwm isel, a allai aberthu anghenion sylfaenol er mwyn fforddio alcohol. Pwysleisiwyd ganddynt hefyd fod yr ymddygiadau hyn yn bodoli cyn yr isafbris uned ac yn amlygu'r angen am fynediad gwell at driniaeth, cymorth bwyd, a gwasanaethau cymunedol. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi galwadau i godi'r isafbris uned i 65c er mwyn helpu i gynnal ei effeithiolrwydd hirdymor, ond awgrymwyd y dylid gwneud hyn fel rhan o strategaeth ehangach, gan gynnwys mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd, cymorth maethol, a mesurau ataliol.

Nodwyd tystiolaeth o'r Alban a data cynnar o Gymru, a oedd yn awgrymu y gall isafbris uned leihau nifer y marwolaethau sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol a nifer y derbyniadau i'r ysbyty, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Fodd bynnag, nodwyd bod chwyddiant, y pandemig, ac anghydraddoldebau rhanbarthol wedi dylanwadu ar ei effeithiolrwydd.

Amlygodd yr ymatebwyr y ffaith fod isafbris uned wedi dangos mwy o fuddion i ddynion, sy'n fwy tebygol o yfed ar lefelau peryglus. Mae'r gwaith modelu'n awgrymu y gallai codi trothwy'r isafbris uned wella'r buddion i fenywod. Mae'r polisi hefyd yn cefnogi arferion iachach ymhlith pobl ifanc.

Awgrymwyd hefyd y gellid cyflwyno treth ffawdelw ar weithgynhyrchwyr alcohol, a allai ariannu gwasanaethau cymorth.

Ymatebwyr y sector iechyd

Disgrifiwyd yr isafbris uned fel polisi o blaid tegwc, hynny yw, ei fod o fudd anghymesur i gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Er y allai'r grwpiau hyn brofi mwy o effeithiau'r polisi, maent hefyd yn profi'r buddion iechyd mwyaf, gan helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae llawer o unigolion a chanddynt nodweddion gwarchodedig yn fwy tebygol o brofi amddifadedd economaidd-gymdeithasol, ac felly byddent yn elwa'n sylweddol o isafbris uned, yn enwedig pe byddai'r pris yn codi i 65c.

Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn dal i fod o'r farn bod angen i'r isafbris uned gael ei weithredu ochr yn ochr â mesurau cymorth ac ymyrryd ehangach er mwyn cael y budd mwyaf o'r isafbris uned a lliniaru unrhyw niwed posibl.
Mae isafbris uned wedi dangos llwyddiant cynnar o ran lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ymhlith pobl ifanc, gan gynnwys gostyngiad mewn derbyniadau i'r ysbyty a gwaharddiadau ysgolion. Fodd bynnag, gallai plant sy'n byw mewn aelwydydd ag yfed niweidiol wynebu mwy o straen ariannol pe byddai prisiau alcohol yn codi. Felly, rhaid i'r drefn o osod isafbris uned fod yn rhan o strategaeth ehangach sy'n cynnwys diogelu, cymorth i deuluoedd, ac addysg i amddiffyn plant a phobl ifanc.

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth a hygyrchedd, dylai'r ffyrdd o gyfathrebu ynghylch yr isafbris uned gael eu haddasu ar gyfer grwpiau amrywiol, gan gynnwys y rhai ag anghenion niwroamrywiol ac anghenion addysgol arbennig.

Y sector cyhoeddus

Nodwyd gan rai yn y sector cyhoeddus ehangach fod y rheiny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn wynebu heriau unigryw o dan yr isafbris uned, lle y mae prisiau alcohol uwch yn effeithio arnynt mewn modd anghymesur. Ar y cyd ag anawsterau o ran trafnidiaeth, mae hyn yn cynyddu straen ariannol, yn enwedig i'r rhai sydd eisoes yn wynebu caledi ariannol. Mae codiadau mewn trethi a phwysau cyllidebol diweddar wedi lleihau incwm gwario, ac mae unigolion ar incwm isel, yn enwedig yfwyr dibynnol, yn cael trafferth fforddio alcohol a chostau byw hanfodol. Er bod rhai o'r ymatebwyr yn cyfeirio at dystiolaeth anecdotaidd wrth awgrymu bod rhai aelwydydd incwm isel yn blaenoriaethu alcohol dros hanfodion eraill, maent yn argymell bod mwy o waith ymchwil ansoddol yn cael ei wneud er mwyn deall yn well yr effaith lawn ar y grwpiau hyn.

Roedd pryderon bod camddefnyddio alcohol yn aml yn ffordd o ymdopi i bobl sy'n wynebu gofid, gan gynnwys unigolion â chyflyrau iechyd meddwl, anableddau dysgu, a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Nodwyd bod y grwpiau hyn yn wynebu risgiau uwch o droi at drosedd a niwed i'w hiechyd, ac y gallai'r isafbris uned helpu i liniaru hynny pe byddai'n cael ei ategu gan gymorth digonol. Yn ogystal, nododd y sector bod pobl hŷn yn arbennig o agored i broblemau iechyd cysylltiedig ag alcohol, ac y gallai llai o fynediad at alcohol rhad drwy'r isafbris uned helpu i'w diogelu.

Nododd y sector fod yr isafbris uned yn cael effaith anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc drwy'r costau byw uchel ehangach, a nodwyd bod adroddiadau gan

Gomisiynydd Plant Cymru a'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn dangos pryder uwch am faterion ariannol a thai, yn enwedig ymhlith gofalwyr ifanc.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd cyfathrebu teg, cynhwysol ynghylch yr isafbris uned, yn enwedig i bobl ag anabledd dysgu, amhariad ar y synhwyrau, neu rugldеr cyfyngedig yn y Saesneg. Nodwyd bod dull cydweithredol rhwng gwasanaethau gorfodi, iechyd a chymunedol yn hanfodol i sicrhau bod yr isafbris uned yn cael ei weithredu mewn modd teg ac effeithiol.

Roedd cais am adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd yn 2018, er mwyn sicrhau bod y polisi'n dal i fod yn deg ac yn effeithiol. Galwodd y sector hefyd am Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau wedi'i diweddaru, sy'n cynnwys ymrwymiadau, rolau ac adnoddau clir ar draws y llywodraeth i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ac anghydraddoldebau cysylltiedig.

<u>Cymdeithasau diwydiant/masnach</u>
Mynegodd y sector bryderon y bydd codi'r isafbris uned yn effeithio mewn modd anghymesur ar yfwyr cyfrifol, sy'n cynrychioli mwyafrif y defnyddwyr alcohol, a hynny drwy leihau eu hincwm gwario. Roeddent yn dadlau bod dirywiad mannau cymunol traddodiadol fel neuaddau eglwys yn golygu bod tafarndai yn ganolfannau cymunedol hanfodol, sy'n gwasanaethu grwpiau amrywiol, o oedolion ifanc i unigolion hŷn sy'n chwilio am gysylltiad cymdeithasol, er eu bod yn nodi y byddai unrhyw gynnydd i brisiau yn arbennig o feichus o bobl ifanc ac yn effeithio mewn modd anghymesur ar y rhai â llai o incwm gwario. Mae'r grwpiau hyn, sy'n aml yn gorgyffwrdd â nodweddion gwarchodedig, yn fwy agored i anfantais economaidd-gymdeithasol ac yn fwy tebygol o yfed alcohol rhatach, cryf iawn, gan ddyfnhau anghydraddoldebau.

Roedd pryder hefyd y gallai prisiau uwch drwy'r isafbris uned a'r weithred o gyflwyno'r cynllun dychwelyd ernes wthio defnyddwyr tuag at gynhyrchion alcohol cryfach ac iddynt gyfaint uwch.

Roedd y rhanddeiliaid yn poeni hefyd y gallai hyn annog pobl i siopa dros y ffin yn Lloegr, gan danseilio manwerthwyr Cymru, ac roeddent yn argymell y dylid gwneud asesiad cynhwysfawr o'r modd y mae'r isafbris uned, y cynllun dychwelyd ernes, a'r adolygiad o'r tollau alcohol yn rhyngweithio, yn enwedig ymysg y costau byw uchel, gan nodi bod yr  adolygiad o'r tollau alcohol wedi arwain at 100 miliwn yn llai o unedau alcohol yn cael eu hyfed ac ymchwydd mewn cynhyrchion llai cryf.

Nododd y sector ei fod eisoes wedi addasu i ddymuniadau newidiol defnyddwyr, a bod 87% o dafarndai yn cynnig cwrw heb alcohol neu alcohol-isel erbyn mis Ionawr 2024, gan adlewyrchu ymrwymiad i gynhwysiant ac amrywiaeth o ran ffordd o fyw. Roedd yna feirniadaeth bod yr isafbris uned yn golygu nad yw costau ychwanegol yr isafbris uned i ddefnyddwyr yn cael eu casglu mewn trethi, ond eu bod yn hytrach o fudd i fanwerthwyr, yn enwedig yr archfarchnadoedd mawr.

<u>Academaidd/ymchwil</u>
Amlygodd yr ymatebwyr y ffaith bod y drefn o bennu isafbris uned eisoes wedi yn offeryn gwerthfawr o ran lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn enwedig ymhlith y poblogaethau mwyaf agored i niwed.

**Cwestiwn 4 – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol parhad isafbris uned a chynnydd yn y pris fesul uned i 65c ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Unigolion

Roedd mwyafrif helaeth yr unigolion a ymatebodd yn dadlau bod prisiau alcohol yn effeithio ar bawb yn yr un modd, ni waeth beth yw eu hiaith, ac na ddylid defnyddio'r Gymraeg fel ffordd o gyfiawnhau polisi economaidd. Gwnaeth rhai o'r ymatebwyr feirniadu obsesiwn canfyddedig Llywodraeth Cymru â hyrwyddo'r Gymraeg.

Roedd set lai o ymatebion yn cydnabod er efallai nad yw'r isafbris uned yn effeithio'n uniongyrchol ar y Gymraeg, y gallai fod iddo ganlyniadau anuniongyrchol. Yn benodol, roedd y rhain yn nodi'r posibilrwydd y gallai tafarndai, clybiau cymdeithasol a digwyddiadau cymunedol gau, sef mannau lle y mae'r Gymraeg yn aml yn cael ei siarad a thraddodiadau diwylliannol yn cael eu cynnal. Mewn ardaloedd gwledig a Chymraeg eu hiaith, mae lleoliadau o'r fath yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau a chydlyniant cymunedol.

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon ynghylch gweithredu'r isafbris uned, yn enwedig o ran negeseuon dwyieithog. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod cyfathrebiadau cyhoeddus a gwasanaethau cymorth yr un mod hygyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Y trydydd sector

Roedd yr ymatebwyr yn dadlau na fyddai'r cynnig i barhau â'r isafbris uned a'i gynyddu i 65c yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ddisgwyliedig, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar y defnydd o'r Gymraeg.

Awgrymodd yr ymatebwyr y byddai prosesau gweithredu dwyieithog cynhwysfawr, sy'n cynnwys canllawiau, camau gorfodi, a gwasanaethau cymorth, yn golygu y byddai'r polisi'n sicrhau cydraddoldeb ieithyddol, a byddai hyd yn oed yn helpu i hyrwyddo'r Gymraeg mewn cyfathrebiadau iechyd y cyhoedd.

Ystyriwyd bod modd ymdopi â mân bryderon ynghylch twristiaeth neu labelu, ac nad oeddent yn ddigon sylweddol i effeithio ar ganlyniadau iaith.

Ymatebwyr y sector iechyd

Ystyriwyd bod isafbris uned ar gyfer alcohol, wedi'i osod ar 65c yr uned, yn bolisi a allai fod o fudd i gymunedau Cymraeg eu hiaith, yn enwedig y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae defnydd niweidiol o alcohol yn tanseilio cydlyniant cymdeithasol, sy'n hanfodol i gynnal yr iaith Gymraeg. Drwy leihau yfed eithafol, gallai'r drefn o bennu isafbris uned gefnogi llesiant ehangach a helpu i ddiogelu gwead diwylliannol y cymunedau hyn. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth y cyhoedd o'r isafbris uned yn dal i fod yn gyfyngedig, ac mae llawer yn anymwybodol o'i fuddion iechyd a gofal cymdeithasol arfaethedig. mae hyn yn tanlinellu'r angen am gyfathrebu clir, dwyieithog sy'n ddiwylliannol berthnasol ac yn hygyrch i siaradwyr Cymraeg.

Er bod yr isafbris uned yn cael ei ystyried yn niwtral yn ieithyddol ac yn annhebygol o effeithio'n negyddol ar gydraddoldeb o ran y Gymraeg, mae'n cynnig cyfleoedd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy negeseuon iechyd y cyhoedd ac ymgysylltiad cymunedol dwyieithog. Awgrymodd y rhanddeiliaid y dylai cymunedau Cymraeg eu hiaith gael eu cynnwys wrth gyd-lunio deunyddiau er mwyn sicrhau perthnasedd a chynhwysiant. Byddai'r dull rhagweithiol hwn yn helpu i atgyfnerthu dwyieithrwydd ac yn cyd-fynd â nodau ehangach Llywodraeth Cymru o ran cynhwysiant iaith.

Y sector cyhoeddus
Teimlwyd bod y drefn o bennu isafbris uned yn peri her sylweddol i siopau diodydd trwyddedig bach a siopau lleol mewn ardaloedd gwledig. Mae'n aml yn fain ar y busnesau hyn yn ariannol ac maent yn ganolfannau cymunedol hanfodol, yn enwedig mewn rhanbarthau Cymraeg eu hiaith. Gallai'r straen ariannol a achosir gan yr isafbris uned, yn enwedig os yw'r isafbris uned yn codi, arwain at fusnesau'n cau, a fyddai nid yn unig yn effeithio ar economïau lleol ond hefyd yn tarfu ar gydlyniant cymunedol a pharhad diwylliannol. Mewn ardaloedd lle y mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd, gallai colli'r busnesau hyn leihau cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg ac erydu'r gwead cymdeithasol sy'n cynnal yr iaith.

Nid oedd mwyafrif yr ymatebion yn rhagweld effaith negyddol ar y Gymraeg, ond roedd sawl un yn pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu dwyieithog mewn negeseuon iechyd y cyhoedd ac wrth ymgysylltu ynghylch polisïau, gan sicrhau mynediad teg at wybodaeth a gwasanaethau. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ran allgymorth i bobl ifanc mewn cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith, lle y gallai rhwystrau o ran y cenedlaethau a rhwystrau diwylliannol atal pobl rhag gofyn am help os nad yw gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Cymdeithasau diwydiant/masnach
Er nad oedd llawer o ymatebion i'r cwestiwn hwn, nododd y rhai a wnaeth ymateb nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw broblemau ac na fyddent yn disgwyl i'r isafbris uned effeithio'n negyddol ar statws y Gymraeg na'r defnydd ohoni, a bod manwerthwyr eisoes yn gweithredu'n ddwyieithog ac y byddent yn parhau i wneud hynny.

Academaidd/ymchwil
Ni ddarparodd yr un o'r ymatebwyr yn y grŵp hwn ymateb i'r cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 5 – Yn eich barn chi, a ellid geirio neu newid y cynnig er mwyn:**

- **Cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**
- **Lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Unigolion
Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gwrthod unrhyw gysylltiad rhwng prisiau alcohol a'r Gymraeg yn gryf, ac yn ystyried bod y cwestiwn yn amherthnasol. Roedd nifer

bach o unigolion yn cydnabod er efallai nad oes cysylltiad uniongyrchol, y gallai effeithiau anuniongyrchol godi mewn perthynas â lleoliadau'n cau, fel y nodwyd yn y crynodeb i gwestiwn pedwar.

Cynigiodd rhai o'r ymatebwyr awgrymiadau adeiladol, er enghraifft sicrhau bod negeseuon iechyd y cyhoedd dwyieithog ar gael a chefnogi busnesau Cymraeg eu hiaith i liniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

<u>Y trydydd sector</u>
Roedd yr ymatebwyr yn dadlau bod y cynnig i barhau â'r isafbris uned a'i gynyddu i 65c yr uned yn ieithyddol niwtral, ac na fyddai'n cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y Gymraeg.  Fodd bynnag, mae'n cyflwyno cyfle i fynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith ar gyfer cyfathrebu a chydymffurfiaeth ym maes iechyd y cyhoedd. Gellir cyflawni hyn drwy gyhoeddiadau dwyieithog, ymgyrchoedd Cymraeg, hyfforddiant a gwasanaethau cymorth.

Gellir lliniaru'r risg bosibl o fynediad anghyfartal at ganllawiau neu wasanaethau yn Gymraeg drwy ymgorffori dwyieithrwydd ar draws pob llwybr gweithredu a monitro canlyniadau yn ôl iaith.

<u>Ymatebwyr y sector iechyd</u>
Mae cyfathrebu clir, dwyieithog yn hanfodol yng Nghymru, yn enwedig ymhlith cymunedau Cymraeg eu hiaith mewn ardaloedd gwledig a all wynebu rhwystrau o ran dealltwriaeth a chael gafael ar gymorth. Rhaid teilwra cyfathrebiadau ar gyfer anghenion amrywiol, gan gynnwys llythrennedd iechyd, niwroamrywiaeth, a hygyrchedd, a hefyd cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyfartal ledled siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Mae ymgorffori darpariaeth yn Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn hanfodol, ac roedd galwadau am gynnig cymorth cyfrwng Cymraeg mewn modd rhagweithiol mewn lleoliadau triniaeth yn ogystal â chanllawiau dwyieithog i fusnesau gydymffurfio â'r isafbris uned.

Cynghorwyd y dylid mynd ati i ymgynghori â sefydliadau'r iaith Gymraeg er mwyn atal unrhyw anfantais anfwriadol i siaradwyr Cymraeg, ac y dylai gwerthusiadau yn y dyfodol fonitro tegwch ieithyddol er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethau o ran mynediad a chanlyniadau.

<u>Y sector cyhoeddus</u>
Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r sector o'r farn nad yw'r isafbris uned yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y Gymraeg, roedd angen cydnabyddedig am gyfathrebu mwy cadarn â'r cyhoedd ynghylch diben a mecanweithiau'r isafbris uned.

Mae camddealltwriaeth o ran bwriad ac effaith y polisi yn parhau ymhlith y cyhoedd, a all tanseilio ei effeithiolrwydd. Roedd negeseuon clir, dwyieithog yn hanfodol i wella dealltwriaeth a chefnogaeth ymhlith y cyhoedd, yn enwedig mewn cymunedau lle y mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn eang. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, er enghraifft taflenni, posteri, ymgyrchoedd digidol, a gwybodaeth atgyfeirio at driniaeth, ar gael yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai'r mesurau hyn, nid yn unig yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ond hefyd yn hybu ymgysylltu ystyrlon â phoblogaethau Cymraeg eu hiaith, yn enwedig mewn

ardaloedd gwledig lle y gall rhwystrau o ran y cenedlaethau a rhwystrau diwylliannol atal pobl rhag gofyn am help os nad yw gwasanaethau'n hygyrch yn ieithyddol.

Cymdeithasau diwydiant/masnach
Er mai prin oedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, cynigiodd un ymatebydd y gellid datblygu deunyddiau'n ymwneud â'r isafbris uned, negeseuon iechyd, neu yfed cyfrifol yn ddwyieithog a'u dosbarthu i fanwerthwyr.

Academaidd/ymchwil
Ni ddarparodd yr un o'r ymatebwyr yn y grŵp hwn ymateb i'r cwestiwn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru'n diolch i bawb a rannodd eu barn yn yr ymgynghoriad hwn ynghylch dyfodol y drefn o bennu isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru. Fel y mae'r crynodeb hwn yn dangos, cawsom lawer iawn o ymatebion ac ystod eang o safbwyntiau.

Amlygodd yr ymgynghoriad amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys pryderon ynghylch pa mor fforddiadwy yw alcohol, yr effaith ar grwpiau agored i niwed, a'r angen am strategaeth ehangach i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Rydym yn cydnabod nad yw'r isafbris uned yn ddatrysiad ar ei ben ei hun a rhaid iddo fod yn rhan o ddull iechyd y cyhoedd ehangach sy'n cynnwys gwasanaethau atal, cymorth, a gwella.

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryder ynghylch effaith y polisi ar grwpiau agored i niwed, yn enwedig unigolion sy'n ddibynnol ar alcohol, ac amlygwyd yr angen am wasanaethau cymorth gwell. Byddwn yn parhau i gefnogi gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, fel yr ydym wedi ei wneud am nifer o flynyddoedd.

Yn yr un modd, rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd, yn enwedig gan ystod o ymatebwyr unigol ynghylch canfyddiadau mai treth yw'r isafbris uned, ynghylch siopa dros y ffin, a chyhuddiadau bod hyn yn ymyrraeth gan wladwriaeth faldodus.

Nid yw'r isafbris uned yn dreth. Nid yw'n cynhyrchu unrhyw incwm ychwanegol i'r llywodraeth ac nid yw'n enghraifft o'r llywodraeth yn mynd yn rhy bell. Rydym o'r farn bod y polisi'n ymateb cymesur, seiliedig ar dystiolaeth, i her iechyd ddifrifol. Mae'n gosod pris gwaelodol er mwyn atal alcohol rhad, cryf iawn rhag cael ei werthu, sy'n cael ei yfed mewn modd anghymesur gan yfwyr peryglus a niweidiol. Bydd unrhyw gynnydd neu ostyngiad mewn refeniw yn sgil cymhwyso'r isafbris uned yn effeithio ar fanwerthwyr. Nod y drefn o bennu isafbris uned yw lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Rydym yn cymryd y pryderon hyn o ddifrif ac yn dal yn ymrwymedig i sicrhau bod yr isafbris uned yn cael ei weithredu ochr yn ochr ag ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol cadarn eraill a anelir at fynd i'r afael â'r niwed i iechyd sy'n gysylltiedig ag yfed a chamddefnyddio alcohol.

Darparodd yr adborth ddirnadaeth werthfawr o ran effaith y polisi a chyd-destun ehangach niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae Llywodraeth Cymru'n dal yn ymrwymedig i ddiogelu iechyd a lles ei dinasyddion, a bydd yn parhau i fonitro a chryfhau'r isafbris uned fel rhan o'i ddull hirdymor o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Rydym yn gwybod bod yr isafbris uned yn gwneud gwahaniaeth, fel y nodir yn y gwerthusiadau annibynnol o'r polisi, sydd hefyd yn amlygu cefnogaeth eang, gan bwysleisio ei botensial i leihau niwed i iechyd a gwella canlyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ers iddo gael ei gyflwyno yng Nghymru yn 2020, mae wedi helpu i leihau faint o alcohol rhad, cryf sydd ar gael. Mae hyn yn golygu bod llai o bobl yn yfed ar lefelau niweidiol, ac rydym yn gweld arwyddion cynnar o ganlyniadau iechyd gwell.

**Y camau nesaf**

Bydd y wybodaeth a gasglwyd ac a ystyriwyd o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch dyfodol yr isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru, ynghyd â'r argymhellion gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd o'r Adroddiad ar Weithrediad ac Effaith, a'r manylion sydd ar gael yng ngwerthusiad Cymru, yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn cefnogi eu hystyriaethau o'r camau nesaf wrth bennu cyfeiriad y polisi ar gyfer yr isafbris uned yn y dyfodol yng Nghymru.